# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER 30.11.2022 AM 7 O'R GLOCH YR HWYR -drost Zoom.

**Presennol –** Cynghorwyr

Menna Jones(Cadeirydd)
Liz Daniel
Sali Burns
Doug Jones
Hawys Tuff
Shoned Rees Griffith (Clerc)

**1. Croeso'r Cadeirydd -** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol.

**2. Ymddiheuriadau –** Cyng ID, Cyng EO, Cyng DelythJ

**3. Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.**

3.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

**4. Derbyn Cofnodion 19.10.2022**

Y Cyng SB yn cynnig fod y cofnodion yn gywir, Y Cyng DougJ yn eilio.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion 19.10.2022**

**Materion Caeathro** –
**Troedffordd o Gaeathro i Gaernarfon -** Dal ar yr agenda.
**Drych -** Cyng EO i gyfarfod swyddog y Cyngor ar safle.
**Llinellau Melyn ger mynediad Erw Wen** - Ar y rhaglen waith Cyngor Gwynedd.
**Monitro cyflymer traffic Hen Lon Gaeathro** - Cyng MJ wedi trefnu bod cyfarpar monitro cyflymder traffic yn cael ei osod oherwydd gor-yrru ar hyd yr hen ffordd.

**Materion Waunfawr** –
**Llinnellau Gwyn –**.Ar y rhaglen waith Cyngor Gwynedd.
**Les tir tu ol i'r Ganolfan** / **Cae Aml-dywydd** - Aros y Les gan Cyngor Gwynedd.
**Golau fflachio bob ochr i'r pentref –**Aros ddiweddariad ynglyn a'r Ganolfan Iechyd newydd.
**Gwefan y Cyngor Cymuned –**Aros ymateb gan Smala.
**Drych** - Cyng EO, am drefnu i gyfarfod swyddog y Cyngor ar safle i drafod ymhellach.
**Coeden Nadolig** Wedi ei gosod.
**Potiau blodau yn Waunfawr/Caeathro** - bylbiau blodau tymhorol wedi eu plannu ynddynt gan Antur Waunfawr.
**Baw Ci** - Dal yn broblem yn y pentref. Clerc i holi am focs o 'key rings' a bagiau baw ci ar gyfer eu rhannu yn y pentref, ac hefyd yn yr ysgol.

6. **Seddi Gwag -** Mynd i anfon manylion i Llion Iwan ar gyfer ein cyfarfod mis Ionawr. Wedi derbyn e-bost gan Mr Dafydd Davies yn datgan diddordeb i ddod yn aelod o'r Cyngor Cymuned. Clerc i gysylltu a'i wahodd i'n cyfarfod mis Ionawr Bydd 1 sedd wag ar ol wedyn ar gyfer Waunfawr.

7. **Gerddi Bach -** Gwaith o gysylltu y system garthffosiaeth i fod i gael ei gwblhau yn fuan. Darpar denantiaid yn gobeithio derbyn y goriadau mis Ionawr. Clerc i gysylltu a Pritchard Jones Lane i holi os yw gweddill y tir wedi ei gofrestru yn enw'r Cyngor Cymuned.

8. **Adroddiadau**

**a. Lloches Bws** -Wedi derbyn e-bost yn diolch i'r Cyngor Cymuned am eu gwaith i newid lleoliad y safle bws newydd.

**. Y Fynwent -** Wedi derbyn pris gan G R Services i ail wneud y wal derfyn yn dilyn e-bost diweddar gan y tirfeddianwr cost o £2,450. Dal i aros 2 bris arall, methu cael neb i roid pris ar hyn o bryd. Cyng Doug Jones wedi trwsio y tap, ond mae o yn gollwng eto.

**c. Llwybrau -**. Aros cynllun o'r llwybrau gan Cyngor Gwynedd. Wal ger Llys Awel a tu cefn i'r Cofgolofn dal heb eu codi.

**Ch. Safle y Toiled a'r Maes Parcio drost ffordd i'r Hen Bost -** Dim

9. **Materion Cynllunio**

**a. Ceisiadau newydd**

| **Dyddiad Cofrestru** | **Bwriad** | **Lleoliad** | **Rhif Cais** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

10. **Gohebiaeth**

Diweddariad Newyddion Ambiwlans Awyr Cymru
Cyngor Gwynedd - Gorchymun Cyngor Gwynedd Digwyddiadau Arbennig
Comisiwn Ffiniau i Gymru - Cynigion Diwygiedig
Helpwch ni i helpu chi
Trigolion - Lloches Bws Newydd
Cyngor Gwynedd - Newyddlen Gwybodaeth i Deuluoedd Gwynedd
Eco'r Wyddfa
Cyfarfod Blynyddol Cyngor a'r Bopeth Gwynedd
Cyngor Gwynedd - Cais Cynllunio - Ysgol Waunfawr - wedi ei rannu tu allan i gyfarfod
Cyngor Gwynedd - Cais Cynllunio - Llwyn Onn, Waunfawr - wedi ei rannu tu allan i gyfarfod.
Cyngor Gwynedd - Cais Cynllunio - Cefn Gwern, Caeathro - wedi ei rannu tu allan i gyfarfod.
Llywodraeth Cymru - Gwariant Adran 137 y Terfyn ar Gyfer 2023-24
Cyngor Gwynedd - Cofnodion Gweinthdy Ardal Ni Bro Peris
Mr Dafydd Davies - diddordeb i ddod ar y Cyngor Cymuned
Cyngor Gwynedd - manylion Grant Coreso Cynnes
Senedd - Pennu eithriadau i'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig
Cyngor Gwynedd - Gwastraff Gardd 2023 - bin brown Cofgolofn, Waunfawr
Cyngor Gwynedd - Newyddion Gwybodaeth i Deuluoedd Gwynedd

## 11. Materion Ariannol

### 11.1 Arian wedi ei dalu allan

| | |
|---|---|
| T Brown | £72.00 |
| Cae Chwarae Caeathro | £72.00 |
| G R Services | £280.00 |
| Cyngor Gwynedd | £214.00 |
| Cae Chwarae Caeathro | £420.00 |
| Rhodd Fynwent Caeathro | £50.00 |
| Rhodd Urdd Gobaith Cymru | £200.00 |
| Rhodd Paned a Sgwrs | £300.00 |
| Cyflog Clerc Hydref | £258.00 |
| H M Revenue & Customs | £52.00 |

### 11.2 Arian a dderbyniwyd

### 11.3 Anfonebau i'w talu

| | |
|---|---|
| British Legion | £40.00 |
| G R Services | £280.00 |
| Coeden Nadolig | £120.00 |
| Cyflog Clerc Tachwedd | £258.00 |
| H M Revenue & Customs | £52.00 |
| Cyflog Clerc Rhagfyr | £258.00 |
| H M Revenue & Customs | £52.00 |

## 12. Archwiliad Blynyddol

Clerc angen anfon yr archwiliad

## 13. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf

Nos Fercher, 18.01.2023, lleoliad i'w gadarnhau.

## 14. Materion Aelodau. -

Cyng EO - Taliadau i Gynghorwyr - Clerc i gysylltu a Clerc Betws Garmon i holi

Cyng SB - Bu i ni drafod cyn Covid i gael cyfarfod cymdeithasol cyn ein cyfarfod ffurfiol, beth am ddod at ein gilydd cyn y cyfarfod nesaf mis Ionawr am bryd o fwyd yn y dafarn a chael cyfarfod yno?

Cyng DJ - Dim wedi ei dderbyn

Cyng ID - Dim wedi ei dderbyn

Cyng LD - Dim wedi ei dderbyn

Cyng MJ - Dim wedi ei dderbyn

Cyng DJ - Dim wedi ei dderbyn

Cyng HT - Damwain arall bron a digwydd tu allan i'r ysgol yn ddiweddar. Yn dilyn trafodaeth, Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i adrodd, gofyn am fwy o arwyddion, gofyn am hymp arfau cyflymder arall, gofyn am declyn i fonitro cyflymder traffic yn yr ardal, ac oes posib stopio trafnidaeth cyffredin o ddefnyddio y ffordd rhwng 3 a 3.45yh o ddydd llun i ddydd gwenar.